EDUCATION WORKFORCE COUNCIL
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

COFNODION DRAFFT PEDWERYDD CYFARFOD AR BYMTHEG
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

DYDDIAD: 10 Gorffennaf 2020

LLEOLIAD: Microsoft Teams (cyfarfod rhithwir)

Yn bresennol:
Aelodau:

Angela Jardine	Paul Croke
Berni Tyler	Steve Drowley
Gwawr Taylor	Rosemary Lait
Anne Pitman	Kelly Edwards
Kevin Pascoe	Clare Jones
Eithne Hughes	Ian Roberts

Ymddiheuriadau:

David Williams	Jane Setchfield

Swyddogion:

Hayden Llewellyn	Prif Weithredwr
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi
Lisa Winstone	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Tim Jones	Rheolwr Systemau Gwybodaeth
Beverley Curtis	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (cofnodion)
Amy Pope	Rheolwr y Swyddfa (cofnodion)

Cyn cyfarfod y Cyngor, cynhaliodd y Gweinidog Addysg sesiwn holi ac ateb gyda'r aelodau.

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd Angela Jardine (*Cadeirydd*), yr aelodau, y swyddogion ac un arsylwr i gyfarfod rhif pedwar ar bymtheg Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

1.2 Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan Jane Setchfield a David Williams.

1.3 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai'r Prif Weithredwr yn darparu diweddariad ar barhad busnes CGA yng ngoleuni'r pandemig COVID-19 yn rhan o eitem CGA 15/20.

1.4 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau fod y sesiwn hyfforddiant ar GDPR a oedd i fod i gael ei chynnal yn dilyn y cyfarfod wedi'i gohirio; byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu o dan eitem CGA 18/20.

1.5 Atgoffwyd yr aelodau am ddigwyddiad Briffio Polisi CGA a fyddai'n cael ei gynnal ar 14 Hydref 2020, ac fe'u hanogwyd i archebu eu tocynnau drwy'r ddolen a ddarparwyd gan y Swyddog Llywodraethu Corfforaethol.

1.6 Adroddodd y Cadeirydd fod cyfnod mamolaeth y Swyddog Llywodraethu Corfforaethol yn dechrau ar 3 Awst 2020 ac y byddai'r sawl sy'n dod i weithio yn ei lle'n cysylltu ag aelodau i gyflwyno'i hun a darparu manylion cyswllt maes o law. Gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu â Rheolwr y Swyddfa os oedd ganddynt unrhyw ymholiadau yn y cyfamser.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Nododd y Cadeirydd y gallai rhai aelodau ddymuno datgan diddordeb mewn perthynas ag eitem CGA 26/20 ar yr agenda, oherwydd eu cysylltiad fel ymgynghoreion yn y broses adolygu cyflogau.

2.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. Gohebiaeth ac Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw ohebiaeth i'w hadrodd.

3.2 Adroddodd fod y sefydliad wedi symud yn ddidrafferth o ffyrdd ffisegol o weithio i ffyrdd rhithwir a chanmolwyd y swyddogion am gynnal a symud gwaith CGA yn ei flaen, gan gynnwys parhau i gyfarfod o bell gyda rhanddeiliaid e.e. Aelodau'r Senedd, Llywodraeth Cymru, Estyn a'r consortia. Nododd fod undebau llafur wedi ymateb yn gadarnhaol i'r penderfyniad i ohirio gwrandawiadau Priodoldeb i Ymarfer.

4. Derbyn hysbysiad o unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas â'r eitemau 'Er Gwybodaeth' (20-24)

4.1 Ni hysbyswyd o unrhyw faterion.

5. Cofnodion drafft Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 13 Mawrth 2020

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 13 Mawrth 2020. Roedd yr aelodau'n fodlon cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

<u>Materion yn codi</u>

5.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6. Adroddiad cryno drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 15 Mai 2020

6.1 Cyflwynwyd yr adroddiad cryno gan y Prif Weithredwr a esboniodd fod y broses a fabwysiadwyd ar gyfer cynnal busnes cyfarfod Pwyllgor mis Mai wedi newid mewn ymateb i COVID-19 a oedd wedi golygu nad oedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb wedi digwydd. Adroddodd nad oedd unrhyw faterion i'w tynnu at sylw'r aelodau nad oeddent yn cael eu hystyried yn ddiweddarach ar yr agenda.

6.2 Nododd y Cadeirydd ei bod wedi'i phlesio gan yr ymatebion i fusnes y Pwyllgor a diolchodd i'r aelodau am barhau i gymryd rhan a chraffu.

6.3 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

7. Adroddiad cryno drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio a gynhaliwyd 15 Mai 2020

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad cryno hwn gan Steve Drowley, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio. Nododd fod y broses wedi gweithio'n dda, bod papurau wedi'u cynhyrchu i'w safon uchel arferol a bod aelodau wedi gallu ymgysylltu â'r cynnwys ac ymateb yn unol â hynny. Adroddodd nad oedd unrhyw faterion pellach i'w tynnu at sylw'r aelodau nad oeddent yn cael eu hystyried yn ddiweddarach ar yr agenda.

7.2 Ni chododd yr aelodau unrhyw ymholiadau.

8. Adroddiad y Prif Weithredwr CGA 15/20

8.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad, a roddodd ddiweddariad i'r Cyngor am ystod o faterion nad oeddent yn cael eu trafod fel arall ar yr agenda, a gwahoddodd sylwadau ac ymholiadau'r aelodau.

8.2 Yn dilyn cyngor gan y llywodraeth, roedd CGA wedi cau'r swyddfa a symud i weithio o gartref ym mis Mawrth 2020. Roedd swyddogion yn gweithio'n effeithiol o gartref, ond roedd rhai effeithiau gweithredol wedi'u gweld, fel yr amlinellwyd yn y bwledi ym mharagraff 2 o'r adroddiad.

8.3 Gan gyfeirio at baragraffau 4 i 6, diweddarodd y Prif Weithredwr y Cyngor ar ddosbarthiad Llywodraeth Cymru o CGA. Roedd Llywodraeth Cymru wedi gohirio'r Gorchymyn Dynodi am flwyddyn oherwydd COVID-19. Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ailgyflwyno'r holiadur i ONS ac roedd ONS wedi cynghori y dylai CGA gael ei ddosbarthu fel corff cyhoeddus - byddai'r Cyngor yn cael gwybod pan fyddai hyn yn digwydd.

8.4 Nodwyd bod swyddogion wedi derbyn y llythyr Cynnig Grant terfynol ym mis Mai 2020. Roedd CGA wedi cyflwyno toriadau o 10% i gyllideb y gwaith grant yn unol â chais Llywodraeth Cymru a gwnaed hyn heb fawr o effaith ar y gwasanaeth.

8.5 Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff 13 o'r adroddiad a nodwyd y posibilrwydd y byddai'r sector addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant yn cael ei reoleiddio gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Nododd yr aelodau y dylai rhai rolau yn y blynyddoedd cynnar a gofal plant ddisgyn o fewn cylch gwaith CGA os oeddent yn ymwneud ag addysg ac adroddodd y swyddogion eu

bod mewn trafodaethau gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a Llywodraeth Cymru a'u bod yn monitro datblygiad yn y maes hwn yn agos. Nododd un aelod fod y sector chwarae'n alinio'i hun gyda gwaith ieuenctid yn ogystal â chyda gofal cymdeithasol. Esboniodd y Prif Weithredwr fod chwarae wedi'i drafod yn flaenorol gyda Llywodraeth Cymru fel categori cofrestru dros dro (cyn Deddf Addysg Cymru) a gwahoddodd yr aelodau i rannu unrhyw safbwyntiau a oedd ganddynt am y sector hwn.

8.6 Gan gyfeirio at baragraff 28, adroddodd y Prif Weithredwr fod gwledydd eraill yn ceisio cael mewnbwn a chyngor gan CGA, a nododd yr effaith gadarnhaol roedd hyn wedi'i chael ar adeiladu enw da'r sefydliad.

9. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft CGA 16/20

9.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan y Prif Weithredwr ac ynddo trafodwyd perfformiad gweithredol a sefyllfa ariannol CGA. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 gan Bethan Stacey (*Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi)* a Lisa Winstone *(Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol*) yn y drefn honno.

9.2 Adroddwyd bod cyfrifon diwedd y flwyddyn wedi'u cwblhau yn unol â'r amserlen wreiddiol, er gwaethaf y tarfu yn sgil COVID-19. Roedd Archwilio Cymru wedi cwblhau eu harchwiliad allanol ac wedi rhoi barn archwilio ddiamod, sy'n golygu eu bod yn fodlon bod popeth fel y dylai fod. Roedd gofyn am un mân addasiad archwilio, a oedd yn hawdd ei gywiro a'i gynnwys.

9.3 Gwahoddwyd y Cyngor i nodi'r gwarged o £296,000 ar gyfer 2019-20, a bod swyddogion wedi cyllidebu am ddiffyg o £223,000. Roedd tri rheswm dros y gwahaniaeth hwn: roedd gohirio gwrandawiadau oherwydd COVID-19 wedi golygu bod £214,000 wedi'i danwario ar y gyllideb Priodoldeb i Ymarfer; roedd y cyfanswm incwm o ffioedd cofrestreion £100,000 yn uwch na'r gyllideb amcangyfrifedig hael, ac roedd CGA wedi derbyn cyllid pensiwn gan Lywodraeth Cymru nad oedd wedi'i ragddisgwyl yn ystod blwyddyn ariannol 2019-20.

9.4 Hysbyswyd y Cyngor fod y Cyfrifon drafft wedi'u hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2020, a'u bod wedi'u cymell i'r Cyngor eu cymeradwyo. Os oedd y Cyngor yn fodlon, byddai'r Cyfrifon yn cael eu llofnodi gan uwch swyddogion a'u hanfon at y Cyfrifydd Cyffredinol i'w hardystio, ac yna byddai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi'n ffurfiol yn y Senedd.

9.5 Gan gyfeirio at baragraffau 7 ac 8, gofynnodd y swyddogion i'r Cyngor ystyried trosglwyddo cronfeydd ychwanegol i gronfa wrth gefn y Gronfa ddata. O ystyried y gwarged a adroddwyd, gofynnodd y swyddogion i £200,000 gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn y Gronfa ddata er mwyn symud hon i gyfanswm o £600,000: rhagfynegwyd y byddai hyn yn caniatáu i CGA brynu eitem yn ei chyfanrwydd pan fyddai angen.

9.6 Gwahoddwyd y Cyngor i nodi bod strwythur diwygiedig i'r Adroddiad Blynyddol, a oedd wedi'i adolygu yng ngoleuni arfer gorau - roedd yr aelodau'n cytuno bod y strwythur newydd yn hyblyg ac yn braf.

9.7 Roedd y Cyngor yn fodlon cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Drafft ar gyfer 2019-20 a chymeradwyo'r cais i gynyddu cronfa wrth gefn y Gronfa ddata £200,000.

10. Adolygu'r Gofrestr Risg CGA 17/20

10.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Lisa Winstone a gyflwynodd Gofrestr Risg bresennol CGA. Hysbysodd yr aelodau fod y Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu gan uwch reolwyr yn chwarterol, ei thrafod gan y Pwyllgor Archwilio a Chraffu ym mhob cyfarfod a'i chyflwyno'n flynyddol i'r Cyngor ei chymeradwyo.

10.2 Adroddwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu wedi trafod manylion y goblygiadau ynghyd â goblygiadau COVID-19 yn y dyfodol yn ei gyfarfod diwethaf ar 29 Mehefin 2020. Roedd Archwilwyr ac aelodau'r Pwyllgor wedi cefnogi penderfyniad uwch reolwyr i hepgor COVID-19 o'r Gofrestr Risg ar hyn o bryd, am fod gwaith CGA yn mynd rhagddo'n effeithiol o bell. Byddai'r risg yn sgil COVID-19 yn destun adolygu parhaus. Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod yr asesiad risg iechyd a diogelwch ar gyfer dychwelyd i'r gweithle yng nghyd-destun COVID-19 ar wahân i broses risgiau corfforaethol.

10.3 Fel corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am arian cyhoeddus, roedd parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg wedi'i ddiffinio fel parodrwydd gwrth-risg. Gwahoddwyd yr aelodau i drafod a chymeradwyo'r Gofrestr Risg, a chadarnhau bod yr asesiad risg gweddilliol yn cyflwyno parodrwydd y Cyngor i dderbyn risg yn ddigonol.

10.4 Roedd y Cyngor yn fodlon cymeradwyo'r Gofrestr Risg ac yn cytuno gydag argymhelliad y Cadeirydd i fwrw ymlaen fel sefydliad gwrth-risg.

11. Adolygiad o'r Cyngor a'r cynnig i gynnal diwrnod hyfforddiant blynyddol CGA 18/20

11.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan y Prif Weithredwr, a ddarparodd drosolwg o'r ymatebion a ddarparwyd gan yr aelodau yn eu hadolygiadau blynyddol. Diolchodd i'r aelodau am eu sylwadau cadarnhaol a chyflwynodd y cynnig y dylid cynnal diwrnod hyfforddiant blynyddol, yn unol ag adborth aelodau.

11.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am weithio ar y cyd i gwblhau'r adolygiadau blynyddol o bell. Nododd fod yr aelodau wedi ffafrio diwrnod hyfforddiant blynyddol, yn hytrach na sesiynau hyfforddiant yn syth cyn neu ar ôl cyfarfodydd y Cyngor, ac awgrymodd y dylai'r Cyngor roi cynnig ar hyn ac adolygu'r penderfyniad ar ôl y diwrnod hyfforddiant a oedd ar y gweill ar gyfer 15 Ebrill 2021.

11.3 Roedd y Cyngor yn fodlon cymeradwyo'r cynnig i gynnal diwrnod hyfforddiant blynyddol yn 2021.

12. Adroddiad cynnydd Priodoldeb i Ymarfer CGA 19/20

12.1 Cyflwynodd Liz Brimble *(Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer)* y papur hwn, a oedd yn cynnwys diweddariad cyffredinol am waith Priodoldeb i Ymarfer CGA. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn am eglurhad ar unrhyw bwyntiau a oedd yn codi o'r adroddiad.

12.2 Gwahoddwyd yr aelodau i nodi effaith COVID-19 ar gynnydd gwaith achosion a chynlluniau i ailgydio yn y gwaith hwnnw. Adroddwyd bod CGA wedi gohirio 21 o wrandawiadau o ganlyniad i COVID-19, ac roedd swyddogion wedi gweithio i ddod o hyd i ffyrdd o ailgydio yn y gwaith, gan ystyried cyngor cyfreithiol a chynlluniau rheoleiddwyr eraill, ac wedi gofyn am safbwyntiau undebau llafur. O ganlyniad, roedd yn fwriad gan CGA ailddechrau gwrandawiadau cyhoeddus o fis Medi 2020 o bell.

12.3 Hysbyswyd y Cyngor bod 28 o wrandawiadau wedi'u trefnu, gan gynnwys 13 ym mis Medi; cydnabu'r swyddogion fod hyn yn nifer uchel ond nodwyd bod swyddogion yn gallu ymdopi â hyn. Roedd y tîm Priodoldeb i Ymarfer wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymgynghoriad â Rheolwr y Swyddfa a'r Rheolwr TG. Byddai angen i swyddogion fynychu'r swyddfa i hwyluso'r gwrandawiadau o bell, ac roedd trefniadau ar y gweill i ddiogelu eu hiechyd a'u diogelwch yn y gweithle yng nghyd-destun COVID-19. Byddai swyddogion yn profi'r meddalwedd gofynnol ym mis Awst, a byddai hyfforddiant TG i staff ac aelodau paneli gyda chynrychiolwyr undebau er mwyn sicrhau bod pawb yn gyfforddus gyda'r trefniadau. Yn ogystal, trefnwyd i ddau bwyllgor addasrwydd gael eu cynnal yn breifat ym mis Awst - cyfarfodydd preifat oedd y rhain a oedd yn darparu cyfle i swyddogion brofi gweithrededd a mynd i'r afael ag unrhyw faterion a fyddai'n codi. Ystyriwyd gan swyddogion mai'r pedwar cyfarfod cyhoeddus cyntaf i'w cynnal ym mis Medi oedd y rhai hawsaf i ymdrin â nhw am mai gwrandawiadau dau ddiwrnod oedden nhw naill ai heb unrhyw dystion neu gyda nifer fach o dystion yn bresennol.

12.4 Cytunodd y Cyngor fod dull gweithredu CGA o fynd ati i ailgydio mewn gwrandawiadau yn bwyllog ac yn bragmataidd a bod y paratoadau'n gadarn. Cytunodd yr aelodau hefyd y dylid monitro effaith cynnal gwrandawiadau o bell er mwyn gwneud yn fawr o'r arfer yn y dyfodol, a theimlwyd ei bod yn bwysig clywed safbwyntiau a chael adborth ansoddol gan gyfranogwyr. Cydnabu'r swyddogion y byddai gan wahanol bartïon wahanol safbwyntiau ac y byddai'r effaith yn amrywio, gyda rhai'n teimlo'n fwy cyfforddus gyda threfniadau o bell nag eraill. Cytunwyd y byddai swyddogion yn casglu adborth ac yn monitro'r sefyllfa'n fewnol yn ogystal ag yn allanol gyda rheoleiddwyr eraill.

12.5 Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, cadarnhaodd Liz Brimble y byddai gwrandawiadau cyhoeddus yn agored i arsylwyr fel arfer ond bod angen 48 awr o rybudd er mwyn i swyddogion allu anfon dolen i ymuno â'r cyfarfod 24 awr ymlaen llaw. Cadarnhaodd y swyddogion y byddai'r ffug-wrandawiadau'n cael eu cadw ar gyfer cyfranogwyr, ond bod croesi i aelodau'r Cyngor arsylwi unrhyw wrandawiad cyhoeddus o fis Medi ymlaen ac fe'u hanogwyd i wneud trefniadau i wneud hynny drwy'r Swyddog Llywodraethu Corfforaethol, a fyddai mewn cysylltiad maes o law gyda gwahoddiad i bob aelod.

12.6 Adroddwyd bod dau gyfarfod o bwyllgorau ymchwilio wedi'u trefnu bob mis o fis Medi ymlaen er mwyn ymdrin â'r ôl-groniad mewn gwaith achosion a achoswyd gan COVID-19; o dan amgylchiadau arferol un pwyllgor ymchwilio fyddai'n cael ei drefnu bob mis. Mewn ymateb i ymholiad aelod, adroddodd Liz Brimble fod niferoedd gwrandawiadau'n gyfartal â blynyddoedd blaenorol; nid oedd swyddogion yn ymwybodol bod unrhyw ôl-groniad sylweddol ar waith. Nododd fod unrhyw faterion priodoldeb i ymarfer a oedd yn dod i'r amlwg ers cau'r swyddfa ym mis Mawrth yn nwylo cyflogwyr ar yr adeg hon, ac nid gyda CGA eto.

12.7 Gan gyfeirio at baragraffau 19 a 20, adroddodd Liz Brimble fod yr ail Adroddiad Blynyddol Priodoldeb i Ymarfer wedi'i adolygu gan y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio a bod fersiwn drafft diwygiedig wedi'i gyflwyno gerbron y Cyngor yn atodiad D y papur esboniadol i'w

gymeradwyo. Nododd yr aelodau fod yr Adroddiad Blynyddol yn cyfrannu at wella safonau, ac yn cael effaith ataliol ynghyd â'r canllawiau arfer da Priodoldeb i Ymarfer. Cymeradwyodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Priodoldeb i Ymarfer i'w gyhoeddi.

12.8 Hysbyswyd yr aelodau bod hyfforddiant blynyddol ar gyfer aelodau paneli Priodoldeb i Ymarfer wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin ond eu bod wedi'u canslo oherwydd COVID-19. Roedd bwletin hyfforddi wedi'i ddosbarthu i aelodau paneli yn lle; cafwyd ymateb da iddo a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio ym mis Medi er gwybodaeth.

13. Ymateb drafft CGA i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion deddfwriaethol ynghylch crefydd, gwerthoedd a moeseg CGA 20/20

13.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a ddarparodd ymateb drafft i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion deddfwriaethol ynghylch crefydd, gwerthoedd a moeseg. Adroddodd fod yr ymateb drafft yn adeiladu ar ymatebion blaenorol CGA i ymgynghoriadau ar y Cwricwlwm.

13.2 Roedd y Cyngor yn fodlon cymeradwyo'r ymateb drafft i'w gyflwyno erbyn terfyn amser yr ymgynghoriad ar 28 Gorffennaf 2020.

14. Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru CGA 21/20

14.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn, a ddarparodd adroddiad cynnydd i'r aelodau ar y gwasanaeth newydd y byddai CGA yn ei ddarparu yn dilyn ymarfer tendro llwyddiannus ar gyfer y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Gwahoddwyd yr aelodau i nodi'r cynnydd gyda'r gwaith er gwaethaf goblygiadau COVID-19.

14.2 Esboniodd fod CGA wedi sefydlu contract gyda Llywodraeth Cymru o fis Ionawr 2020 i gyflwyno'r gwaith. Roedd yr elfennau cytunedig i'w cyflwyno wedi'u hamlinellu ym mharagraff 3 o'r papur; roedd rhai dyddiadau wedi'u heffeithio yn sgil COVID-19, ond roedd swyddogion yn hyderus y gellid cyflawni'r gwaith yn unol â'r cynllun gweithredu.

14.3 Adroddwyd bod Swyddog Datblygu'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith ieuenctid a benodwyd gan CGA wedi dechrau yn ei swydd ar 3 Mehefin 2020. Roedd wedi ymgymryd â gwaith ymgysylltu sylweddol gyda sefydliadau gwaith ieuenctid dros y ffôn, ac yn dilyn hynny roedd 18 o sefydliadau hyd yma wedi mynegi diddordeb mewn cyflwyno cais am y Marc Ansawdd.

14.4 Gan gyfeirio at baragraffau 12 i 14, hysbyswyd y Cyngor bod aseswyr arweiniol yn allweddol i gyflwyno'r gwaith. Byddent yn derbyn hyfforddiant ac yn ymgymryd ag asesiadau desg i ddechrau, gydag ymweliadau safle'n dilyn yn ddiweddarach.

14.5 Hysbyswyd y Cyngor bod adroddiad yn dilyn adolygiad datblygu llawn o'r trefniadau presennol ar gyfer y Marc Ansawdd yng Nghymru i fod i gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2020; roedd hyn wedi'i ohirio tan fis Medi oherwydd effaith COVID-19 ar y sefydliadau gwaith ieuenctid yr oedd disgwyl iddynt gydweithio ar yr adolygiad. Roedd gwaith ar y gweill yn y cyfnod interim, gyda swyddogion yn cael mewnwelediadau a mewnbwn yn sgil ymchwil desg ac ymatebion ymarferwyr i holiadur o bob rhan o'r sector. Byddai'r adroddiad terfynol yn cyflwyno argymhellion ynghylch dyfodol a datblygiad y Marc Ansawdd yng Nghymru.

14.6 Adroddodd Bethan Stacey fod cyfarfod cyntaf y grŵp llywio i gynghori a chefnogi CGA ac ETS i gynnal a datblygu'r Marc Ansawdd wedi'i drefnu ar gyfer 23 Gorffennaf 2020.

14.7 Hysbyswyd y Cyngor bod swyddogion yn paratoi'r ail anfoneb i Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith. Ychwanegodd Lisa Winstone fod goblygiadau TAW am y byddai CGA yn cyrraedd y trothwy i gofrestru ar gyfer TAW cyn bo hir, a nododd fod swyddogion yn edrych ar y broses ar gyfer cyflwyno taliadau i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Cadarnhaodd y swyddogion fod hyn wedi'i gyfleu i Lywodraeth Cymru cyn dechrau'r contract.

14.8 Nododd un aelod fod y gwaith a oedd ar y gweill er gwaethaf y cyfyngiadau'n galonogol, ei fod yn amlygu gwaith partneriaeth effeithiol a bod y sector gwaith ieuenctid wedi'i atgyfnerthu gan CGA.

14.9 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

15. Adroddiad Cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu CGA 22/20

15.1 Cyflwynwyd yr adroddiad cynnydd hwn gan Liz Brimble, a roddodd ddiweddariad i'r aelodau am waith CGA mewn perthynas â Chofrestru a gweinyddu'r gwaith o ddyfarnu Statws Athro Cymwys (SAC) a Sefydlu.

15.2 Gwahoddwyd yr aelodau i nodi effaith COVID-19 ar y broses casglu ffioedd ar gyfer 2020-21. Adroddodd Liz Brimble fod swyddfeydd CGA wedi cau ym mis Mawrth yn ystod y broses flynyddol o gasglu ffioedd cofrestru. Roedd mwyafrif y ffioedd cofrestru'n cael eu talu gan gyflogwyr ac wedi'u derbyn, fodd bynnag roedd swyddogion wedi bod yn monitro'n agos y ffioedd a gâi eu talu'n uniongyrchol gan gofrestreion. Gan ystyried y tarfu a achoswyd yn sgil COVID-19, roedd swyddogion wedi penderfynu gohirio'r broses ddadgofrestru flynyddol ac wedi symud y rhai hynny nad oeddent wedi talu eto i statws 'adnewyddu yn yr arfaeth'. Roedd y penderfyniad wedi'i wneud fel ymateb trugarog i amgylchiadau unigol yng nghyd-destun COVID-19.

15.3 Hysbyswyd y Cyngor bod y sefyllfa mewn perthynas â ffioedd 'adnewyddu yn yr arfaeth' wedi'i monitro'n agos ac, oherwydd bod llawer o'r unigolion hyn heb gontractau neu eu bod ar gontractau cyflenwi, y penderfynwyd peidio ag anfon gohebiaeth bellach mewn perthynas â thalu'r ffi hyd pan ailagorodd yr ysgolion ym mis Mehefin 2020. Bwriad swyddogion oedd cwblhau'r broses ddadgofrestru rywbryd ym mis Hydref 2020 (dyddiad i'w gadarnhau) gyda chyfathrebu pellach gydag unigolion ac asiantaethau cyflenwi 'adnewyddu yn yr arfaeth' cyn hyn.

15.4 Esboniodd Liz Brimble nad oedd swyddogion yn gallu adrodd ar hyn o bryd ar yr incwm a'r gyllideb gyfan oherwydd nad oedd y broses o gasglu ffioedd wedi'i chwblhau eto. Amcangyfrif swyddogion oedd bod niferoedd cofrestreion i lawr rhwng 2,200 a 2,400.

15.5 Adroddwyd bod y tîm Cofrestru'n derbyn rhwng 30 a 40 o geisiadau y dydd i gofrestru, a oedd yn arferol ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn.

15.6 Gan gyfeirio at baragraff 11, adroddwyd bod cynnig gan y cwmni sy'n gyfrifol am gontract y gronfa ddata ar gyfer rheoli'r contract a chostau'r dyfodol wedi'i dderbyn ar 8 Gorffennaf.

15.7 Hysbysodd Liz Brimble y Cyngor fod gwaith CGA o weinyddu dyfarnu SAC yn mynd rhagddo yn ôl yr arfer, er bod trefniadau gyda sefydliadau wedi'u heffeithio yn sgil COVID-19. Roedd swyddogion yn derbyn canlyniadau gan sefydliadau a byddent yn cyhoeddi tystysgrifau SAC i

ANG ddiwedd mis Gorffennaf. Mewn perthynas â Sefydlu ar gyfer ANG, roedd swyddogion yn disgwyl gweld cynnydd yn y galw am ohiriadau eleni, ond byddai tystysgrifau sefydlu'n cael eu cyhoeddi ym mis Awst yn ôl yr arfer.

15.8 Diolchodd yr aelodau i'r swyddogion am eu sensitifrwydd i amgylchiadau unigol athrawon cyflenwi a chroesawyd yr ymagwedd bragmataidd a fabwysiadwyd. Nododd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn gohebiaeth gan Aelodau'r Senedd mewn perthynas â hyn, a bod penderfyniadau a wnaed gan swyddogion wedi osgoi niwed i enw da CGA.

15.9 Symudodd y Cyngor ymlaen i drafod y cyhoeddiad Gweinidogol diweddar y byddai Llywodraeth Cymru yn creu 600 o swyddi addysgu a 300 o swyddi staff cymorth ychwanegol. Cadarnhaodd swyddogion eu bod wedi derbyn gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â hyn a bod CGA mewn sefyllfa i gyfrannu drwy gyfathrebu ag ANG a staff cyflenwi ar Gofrestr CGA, â'r rhai hynny a oedd yn dychwelyd i'r proffesiwn drwy Hyrwyddo Gyrfaoedd, a thrwy gefnogi penodiadau newydd drwy'r broses cyllido Sefydlu. Croesawodd yr aelodau'r newyddion, a mynegodd rhai safbwyntiau y dylai ysgolion dderbyn y cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, yn hytrach na thrwy awdurdodau lleol neu gonsortia, ac y dylai'r cyfleoedd fod ar gael i bawb, nid dim ond y rhai hynny a oedd yn gweithio yn y sector addysg ar hyn o bryd.

15.10 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

16. Hyrwyddo Gyrfaoedd ym maes Addysg CGA 23/20

16.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Bethan Stacey a ddarparodd adroddiad cynnydd i'r aelodau ar rôl CGA yn hyrwyddo gyrfaoedd ym maes addysg.

16.2 Gwahoddwyd yr aelodau i nodi bod y wefan genedlaethol newydd wedi'i darparu, a hysbyswyd y byddai'r gwaith profi'n mynd rhagddo drwy gydol mis Gorffennaf. Bwriadwyd y byddai'r llwyfan digidol wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2020 yn wreiddiol, ond roedd oedi wedi golygu bod y terfyn amser i'w gwblhau wedi'i ymestyn. Gwnaed taliad cychwynnol i'r cyflenwr a byddai taliadau pellach yn cael eu gwneud yn dilyn profi a hyfforddiant, gyda thaliad terfynol i'w wneud ar ôl unioni unrhyw faterion a godai yn sgil lansio'r wefan; disgwylir i hyn ddigwydd yn gynnar yn 2021. Roedd dyddiad lansio eto i'w gytuno gyda Llywodraeth Cymru, ond roedd swyddogion yn gweithio ar fanyleb i gaffael cyflenwr ar gyfer ymgyrch y lansiad.

16.3 Gan gyfeirio at baragraff 8, hysbyswyd y Cyngor bod Llywodraeth Cymru wedi ail-lansio'i hymgyrch Addysgu yng Nghymru yn ddiweddar, i alinio gyda'r brand newydd Addysgwyr Cymru; ar ANG, athrawon cyflenwi a dychwelwyr i'r proffesiwn roedd ei ffocws.

16.4 Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, cadarnhaodd y swyddogion fod y gwaith hwn wedi'i drosglwyddo i CGA yn dilyn adolygiad cyflym o ymgyrch Darganfod Addysgu Llywodraeth Cymru. Roedd y llwyfan digidol newydd wedi'i ddatblygu yn dilyn ymchwil i'r farchnad ac ymgynghori â gweithluoedd ysgol a rhanddeiliaid. Crybwyllodd swyddogion fod recriwtio i'r proffesiwn addysg yn broblem fyd-eang, ac nid yn fater i Gymru'n unig, a bod y data a'r ymchwil desg a wnaed yn bwydo i mewn i'r sesiwn briffio polisi ym mis Hydref.

16.5 Adroddodd Bethan Stacey fod Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros y Fforwm Recriwtio i fyd Addysg i CGA. Nod y fforwm oedd creu rhwydwaith recriwtio a marchnata ar gyfer y proffesiwn addysg yng Nghymru. Roedd swyddogion yn adnewyddu'r

Cylch Gorchwyl a'r aelodaeth, a byddai cyfarfod cychwynnol o'r fforwm ar ei newydd wedd yn cael ei gynnal yn yr hydref.

16.6 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraffau 19-23, rhoddodd ddiweddariad i'r aelodau am gyfraniad CGA at flaenoriaeth Weinidogol i amrywio'r gweithlu ysgol mewn perthynas â chynrychiolaeth PDdLlE. Adroddodd fod tîm polisi CGA wedi cwblhau cam 2, a bod gwaith datblygu polisi bellach ar y gweill i gefnogi cam 3. Nododd y Cadeirydd fod y gwaith hwn yn amserol yng ngoleuni mudiad 'Mae Bywydau Du o Bwys'. Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, cadarnhaodd swyddogion fod blaenoriaeth y Gweinidog yn canolbwyntio ar athrawon ysgol a staff cymorth.

16.7 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

17. Adroddiad Cynnydd Cyllido Sefydlu, DPC & MAA CGA 24/20

17.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Bethan Stacey a ddarparodd adroddiad cynnydd i'r aelodau am rôl CGA wrth weinyddu'r trefniadau cyllid, olrhain a chofnodi ar gyfer Sefydlu a'r MAA mewn perthynas ag athrawon ysgol yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru.

17.2 Adroddodd fod gwaith wedi mynd rhagddo fel arfer er gwaethaf y tarfu a achoswyd gan COVID-19 i ysgolion a CGA fel ei gilydd. Roedd swyddogion wedi cytuno ar y cyllid ar gyfer tymor y gwanwyn - roedd y cyfanswm a ryddhawyd wedi'i amlinellu yn Atodiad A y papur esboniadol. Roedd y broses ar gyfer tymor yr haf yn mynd yn ei blaen yn ôl yr arfer; cysylltwyd ag ysgolion gan ofyn iddynt gyflwyno ffurflenni hawlio fel arfer ac ni chafwyd unrhyw adborth negyddol.

17.3 Gan gyfeirio at baragraffau 13 i 14, hysbyswyd y Cyngor bod y toriad o 10% yn y grant wedi gostwng y cyllid a ddyrennir i'r maes gwaith hwn o £4.3 miliwn i £3.9 miliwn. Roedd y lefel resymol o arian wrth gefn a gaiff ei chynnwys yn amcangyfrifon CGA ar gyfer y gwaith hwn fel arfer wedi'i thynnu allan ar gyfer 2020-21, ond hysbyswyd swyddogion y caent ofyn i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer y gwaith hwn petai angen.

17.4 Gan gyfeirio at baragraffau 15 i 16, hysbysodd Bethan Stacey y Cyngor fod adroddiad Mick Waters ar drefniadau Sefydlu yng Nghymru i fod i gael ei gyhoeddi dros yr haf; byddai'r adroddiad yn cael ei rannu gyda'r aelodau cyn gynted ag y byddai ar gael.

17.5 Cyfeiriodd yr aelodau at baragraffau 17 i 22 ac adroddodd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno mesurau dros dro ac arweiniad i'r rhai hynny a oedd yn ymgymryd â Sefydlu y tu hwnt i dymor yr haf 2020 mewn ymateb i COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys dau gymal dros dro: yn gyntaf, roedd hyd y sefydlu wedi'i gwtogi o isafswm o ddau dymor ysgol neu 180 sesiwn i isafswm o 1 tymor ysgol neu 110 sesiwn, ac yn ail, gallai'r amser a dreuliwyd yn ymgymryd â dysgu proffesiynol gyfrif tuag at sefydlu. Mewn ymateb i'r newidiadau hyn, roedd swyddogion yn datblygu dogfennau a thempledi newydd i gefnogi ANG a chyrff sy'n gyfrifol am y cyfnod sefydlu gorfodol. Byddai'r mesurau dros dro'n dod i rym ar 15 Gorffennaf 2020 a byddent yn eu lle tan 31 Awst 2021.

17.6 Mynegodd yr aelodau bryder am y trefniadau dros dro mewn perthynas â hygrededd y broses ond hefyd o ran llesiant ANG. Eglurodd Bethan Stacey fod un tymor yn isafswm gofynnol ar gyfer cwblhau'r cyfnod sefydlu, gan ychwanegu bod sefydlu'n rhaglen gymorth ac y dylid annog unigolion i ymgymryd â blwyddyn gyfan cyn cyflwyno'u hunain i fodloni'r safon sefydlu. Roedd yr aelodau'n teimlo'n gryf mai'r neges gan CGA ddylai fod na ddylid ystyried bod y mesurau dros dro'n dargedau, a nodwyd bod cymorth i ANG yn hanfodol er

mwyn peidio â rhoi neb o dan anfantais, yn arbennig gyda'r posibilrwydd y byddai tarfu'n parhau i effeithio ar ysgolion yn sgil COVID-19.

17.7 Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad cynnydd.

18. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) CGA 25/20

18.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan Bethan Stacey a roddodd adroddiad cynnydd i'r aelodau am rôl statudol y Cyngor o ran achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru.

18.2 Adroddodd fod COVID-19 wedi arwain at gryn newidiadau o ran yr arfer mewn ysgolion a SAU ac, yn unol â hynny, bod CGA wedi meithrin dull pragmataidd ac wedi cytuno i fod yn hyblyg mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r meini prawf achredu ar gyfer rhaglenni a oedd yn rhedeg yn 2019-20. Roedd swyddogion yn gweithio i bennu pa hyblygrwydd y gallai fod ei angen ar gyfer 2020-21, ac roeddent yn gweithio gyda phartneriaethau i sicrhau na fyddai unrhyw hyblygrwydd a gynigir yn tanseilio'r egwyddorion sy'n sail i'r achredu. Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, adroddodd fod swyddogion ac aelodau o Fwrdd Achredu AGA yn ymwybodol o'r cyfnod sylweddol o ddiwygio a newid y bu AGA yn destun iddo a'u bod yn awyddus i gefnogi partneriaethau. Fodd bynnag, rhoddodd sicrwydd i'r Cyngor bod CGA wedi ymateb yn gadarn i geisiadau UCET i lacio'r meini prawf achredu. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y gallai CGA, fel y rheoleiddiwr, dynnu achrediad yn ôl pe na bai'n fodlon ar ansawdd rhaglen.

18.3 Gan gyfeirio at baragraff 14, adroddodd fod swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn ymgymryd â phroses achredu ar gyfer tair rhaglen a gyflwynwyd gan bartneriaeth Prifysgol Bangor (CaBan); roedd y broses hon yn mynd rhagddi'n rhithwir am y tro cyntaf, a hynny gyda chydsyniad pob un o'r partïon. Y bwriad oedd y byddai'r broses yn cael ei therfynu erbyn diwedd mis Awst.

18.4 Amlygodd Bethan Stacey y gwaith a wnaed o ran monitro cydymffurfiaeth rhaglenni achrededig, fel yr amlinellwyd ym mharagraffau 14 i 20. Roedd swyddogion yn gweithio'n agos gydag Estyn a phartneriaethau i sefydlu proses o fonitro blynyddol. Byddai'r canfyddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Achredu AGA a'r Cyngor, a byddai digwyddiad cyd-greu'n cael ei drefnu yn nhymor yr hydref.

18.5 Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff 24 ymlaen mewn perthynas â dau brosiect newydd a nodwyd yn y llythyr cynnig grant a fyddai'n cael eu harwain gan y tîm Achredu AGA. Nod y prosiect cyntaf oedd datblygu mentrau a digwyddiadau AGA i wreiddio rhaglenni newydd, a'r ail fyddai caffael cyflenwr i gynnal astudiaeth i lwybr TAG/SAC a fyddai'n caniatáu i berson addysgu mewn ysgolion ac AB fel ei gilydd a rhaglen drosi i ganiatáu i berson â TAR (AB) i addysgu mewn ysgolion. Roedd yr aelodau'n croesawu'r meysydd gwaith newydd hyn.

18.6 Mewn ymateb i ymholiad gan aelod mewn perthynas â niferoedd myfyrwyr, cadarnhaodd y swyddogion eu bod yn edrych yr un peth ag arfer a dim gwaeth na'r flwyddyn flaenorol - roedd niferoedd derbyn myfyrwyr ar gyfer cyrsiau cynradd yn foddhaol, er bod niferoedd derbyn ar gyfer cyrsiau uwchradd ar i lawr.

18.7 Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, hysbysodd y Prif Weithredwr y Cyngor ei bod yn rhy gynnar adrodd ar effaith y trefniadau achredu newydd ar SAU a myfyrwyr, ond bod hyn yn faes i gynnal ymchwil iddo yn y dyfodol.

18.8 Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad cynnydd.

19. Ysgrifenyddiaeth i'r IWPRB **CGA 26/20**

19.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan y Prif Weithredwr a roddodd ddiweddariad i'r Cyngor am rôl y Cyngor fel yr Ysgrifenyddiaeth annibynnol i Gorff Annibynnol Adolygu Cyflogau Cymru (IWPRB). Adroddwyd bod CGA wedi hwyluso'r gwaith o gyflwyno ail adroddiad yr IWPRB i'r Gweinidog Addysg erbyn y terfyn amser o 30 Mehefin 2020.

19.2 Roedd yr aelodau'n fodlon nodi'r adroddiad cynnydd.

20-24. Eitemau Er Gwybodaeth

Derbyniodd yr aelodau bapurau "Er Gwybodaeth", sef adroddiadau ar:

- Adolygiad Chwarterol (1 Ionawr - 31 Mawrth 2020) **(CGA 27/20)**
- Adolygiad o'r Flwyddyn Archwilio a Chraffu **(CGA 28/20)**
- Pasbort Dysgu Proffesiynol **(CGA 29/20)**
- Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol **(CGA 30/20)**
- Calendr cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau yn y dyfodol **(CGA 31/20)**

Yna symudodd y Cyngor i sesiwn breifat.